**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC 13-01(p5)**

**Dyddiad: 31 Hydref 2001 (Ail-gyflwyno 14 Tachwedd 2001)**
**Amser: 2.00 - 5.30pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1, Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**
**Teitl: DADANSODDI ECONOMAIDD: GWELLA'R SYLFAEN DYSTIOLAETH**

*Y bwriad yn wreiddiol oedd trafod y papur hwn ar 31 Hydref 2001*

## Diben

1. Yr oedd adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar yr *"Adolygiad o Gymorth Busnes a Gwasanaethau Datblygu"* yn cynnwys cynigion i wella'r sylfaen wybodaeth ar gyfer llunio polisi a gweithgareddau cysylltiedig. Ymateb yw'r papur hwn i'r argymhellion hyn, ac mae'nymdrin â'r ymrwymiad cysylltiedig yn y Cytundeb Partneriaeth i sefydlu "partneriaeth wedi'i chyllido….. i ymgymryd ag ymchwil a gwerthuso i effaith gweithgareddau polisi economaidd y Cynulliad".

## *Crynodeb*

2. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu:

- **Cefnogi Rhaglen Ymchwil, Dadansoddi, Monitro a Gwerthuso Economaidd;**
- **Sefydlu Panel Ymgynghorol ar Ymchwil Economaidd**
- **Sefydlu Uned Ymchwil a Gwerthuso Economaidd yn y Cynulliad Cenedlaethol;**
- **Edrych ar ffyrdd o gryfhau'r gallu sydd ar gael yn allanol i wneud gwaith ymchwil**

3. Estynnir gwahoddiad i'r Pwyllgor nodi'r camau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd.

## Y Prif Ganfyddiadau

4. Yn dilyn Adroddiad y Pwyllgor yn gynharach eleni, comisiynwyd astudiaeth gennyf i nodi'n hanghenion a sut y gallem ddatblygu rhaglen ymchwil ymarferol i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau bellach, ac mae'n ystyried profiadau a gafwyd mewn rhannau eraill o'r DU ac yn Iwerddon. Mae'r prif gasgliadau fel a ganlyn:

- Er ei bod yn gwella'n raddol, mae angen i'n dealltwriaeth o'r materion economaidd sy'n effeithio ar Gymru, o effaith polisïau a rhaglenni, ac ansawdd ein data, wella ymhellach.
- Mae angen i ni wneud hyd yn oed fwy o ymdrech i gomisiynu ymchwil ymarferol a fydd yn sail i'n polisïau ac a fydd yn fodd i sicrhau mwy o werth am arian. Nid oes gennym drefniadau cadarn ar gyfer cydlynu ymchwil economaidd, felly mae perygl y ceir gorgyffwrdd yn hyn o beth.

- Mae'r gallu sydd ar gael yng Nghymru o safbwynt dadansoddi economaidd yn brin, ac mae'n wasgaredig iawn.
- Mae'r gwaith gwerthusoa wneir yn tueddu i ganolbwyntio ar fesur gweithgarwch yn hytrach nag ar asesu effaith.
- Mae ymchwil drawsbynciol yn brin.

**Ymateb y Llywodraeth**

5. Cytunwyd ar y camau canlynol:

- **Panel Ymgynghorol ar Ymchwil Economaidd** – er mwyn dod ynghyd â chynrychiolwyr y prif Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, partneriaid cymdeithasol, academwyr, ymchwilwyr cymhwysol, a swyddogion yng ngrwpiau polisi perthnasol y Cynulliad. Tasg y panel hwn fydd ein cynghori ar raglen benodol o ymchwil a gwerthuso economaidd ymarferol, a sicrhau bod canlyniadau'r rhaglen yn cael eu defnyddio i helpu i ddatblygu polisi: bydd ganddo rôl allweddol o ran helpu Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod ei strategaeth datblygu economaidd yn parhau'n berthnasol ac yn ffres.

- **Rhaglen Ymchwil, Dadansoddi, Monitro a Gwerthuso Economaidd –** i ymdrin â holl rychwant yr agenda economaidd (gan gynnwys polisi ar ddatblygu economaidd ac agweddau ar addysg, dysgu gydol oes, datblygu gwledig, adfywio cymunedau, yr amgylchedd, cynllunio a thrafnidiaeth). Dylai ganolbwyntio ar feysydd polisi y rhoddir blaenoriaeth iddynt, gan gynnwys y rheini sy'n berthnasol i sawl maes polisi. Ceir enghreifftiau o'r mathau o astudiaethau y gellid eu cynnwys yn Atodiad 1. Caiff rhaglen waith ei *datblygu* gan y panel gan ymgynghori â'r cyrff sydd â diddordeb. Caiff ei *chymeradwyo* gan y Cabinet. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn cael ei gomisiynu o ganolfannau rhagoriaeth allanol, a byddai canlyniadau'r gwaith yn wybodaeth gyhoeddus.

- **Uned Ymchwil a Gwerthuso Economaidd** fydd yn *rheoli'r* rhaglen o fewn y Cynulliad. Bydd yr Uned yn gweithio'n agos â'r grwpiau polisi ac eraill er mwyn sicrhau bod ei gwaith yn cael effaith uniongyrchol ar effeithiolrwydd ac ar ddyrannu arian, ac yn sicrhau gwelliant yn hyn o beth. Caiff y gwaith a gyhoeddir gan yr Uned ei hadolygu gan gydweithwyr yn y maes er mwyn hyrwyddo safon uchel o ran dadansoddi.

- **Cryfhau'r gallu sydd ar gael yn allanol-** er mwyn manteisio ar y syniadau diweddaraf wrth fynd ati i ddatrys problemau economi Cymru, byddwn yn annog ein Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i roi mwy o sylw i ymchwil a gwerthuso economaidd ymarferol ac i hyrwyddo mwy o gydweithio yng Nghymru ei hun, a rhwng sefydliadau yng Nghymru a chanolfannau rhagoriaeth y tu hwnt i Gymru. Bydd gan y Panel Ymgynghorol ar Ymchwil Economaidd rôl o safbwynt *cynghori* ar fesurau i feithrin gallu

sefydliadau yng Nghymru.

6. Bydd Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a grwpiau polisi gweinyddiaeth y Cynulliad yn cadw’r cyfrifoldebau sydd ganddynt ar hyn o bryd o safbwynt gwneud gwaith ymchwil a gwerthuso sy’n gysylltiedig â datblygu polisi a chynnyrch, darparu gwasanaethau a gwerthuso rhaglenni unigol. Er hynny, dylai gweithgarwch ymchwil a gwerthuso ehangach gael ei integreiddio â’r rhaglen ymchwil economaidd. Bydd hyn yn fodd i sicrhau bod gallu yn cael ei gynyddu i’r eithaf, bod dyblygu posibl yn cael ei osgoi, a bod yr holl bartneriaid yn cydweithio.

**Casgliadau**

7. Credaf fod y mesurau hyn yn diwallu’r anghenion a nodir yn argymhellion y Pwyllgor. Ein nod yw sicrhau bod economi Cymru yn iachach ac yn gweithio’n gynt. O’u cymryd gyda’i gilydd, bydd y mesurau hyn yn ychwanegu’n sylweddol at ein dealltwriaeth o faterioneconomaidd, o ddulliau o ymyrryd ac o’r effaith y mae polisïau yn ei chael. Bydd y Panel Ymchwil Economaidd yn fodd i sicrhau mwy o gydweithio rhwng Llywodraeth y Cynulliad, partneriaid cymdeithasol, Addysg Uwch a’r asiantaethau economaidd allweddol ac yn fodd hefyd i sicrhau bod ein gweithgareddau ymchwil yn fwy cydlynus.

8. Nid wyf wedi cael fy argyhoeddi bod angen mynd ymhellach a chreu Bwrdd Polisi Economaidd. Mae’n rhy gynnar eto i symud i’r cyfeiriad hwn gan fod angen mwy o amser ar ELWA ac Awdurdod Datblygu Cymru, sydd newydd ehangu, i ennill eu plwyf. Yr wyf hefyd yn amheus ynghylch creu strwythurau cymhleth hollgwmpasol a allai dynnu adnoddau oddi wrth y gwaith casglu gwybodaeth economaidd a ddylai fod yn sail i’n gwaith llunio polisi ac a fyddai hefyd yn creu cynnwrf a chythrwfl diangen yn ein sefydliadau.

**Rhodri Morgan**

Prif Weinidog Cymru a Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd